CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
11 Chwefror 2025
AM 7.00 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, E Law-Shui Nicholson, H N Evans, S Jones, C Thomas, D Fowlie (Cynghorydd Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R G Parry, H Owens	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 15.01.25 fel cofnodion cywir. Cyng P Roberts yn cynnig a Cyng S Jones yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes Chwarae CCTV** – Mae'r Clerc yn aros i glywed ymhellach gan y Brifathrawes a bydd yn cysylltu ymhellach.
4.2	**Bin Lon Ty Hen** – Mae'r Clerc yn aros am ad-daliad ar y bin sydd wedi'i ddychwelyd a bydd wedyn yn archebu un llai.
4.3	**Terfyn cyflymder Engedi** – Mae y Cyngor Sir yn aros am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru
4.4	**Mynwent Bryngwran** - Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at berchennog Mountain View ynglŷn â'r goeden sydd wedi gordyfu ond heb derbyn Ymateb. Dywedodd y Cyng Thomas y bydd ei gŵr yn gweld a all dynnu'r goeden sydd wedi disgyn. Mae cerrig yn disgyn o'r wal ar y ffordd i'r fynwent. Cynigiodd y Cyng S Jones dynnu lluniau a'u hanfon at y Clerc.
4.5	**Traffig yn gadael Plas Crigyll** - Datgan y Cyngor Sir nad oes angen drych yn y lleoliad hwn. Mae'r Cynghorydd H N Evans wedi trosglwyddo'r wybodaeth hon i Blas Crigyll (i'r staff a wnaeth y gŵyn). Bydd yn gwirio a yw'r Cyngor Sir wedi bod mewn cysylltiad â Phlas Crigyll ac yn edrych ar ddulliau o arafu'r traffig.
4.6	**Dosbarthwr bagiau cwn –** Mae y Clerc yn archebu dosbarthwr newydd
	Llofnod……..Cadeirydd 20.03.25

4.7	**Diffibriliwr** – Nid yw'r Clerc wedi clywed gan SP Energy Networks ynglŷn â gosod diffibriliwr ar eu heiddo ym Mro Isaf. Cytunwyd felly y byddai'n gofyn i'r feddygfa a ellir ei gosod yno. Os bydd yn cael caniatâd, bydd wedyn yn gwneud cais am grant I'r British Heart Foundation. Mae cyfraniad o £500 gan Bro Isaf tuag at y diffibriliwr.
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Awgrymodd y Cadeirydd fod hysbysfwrdd newydd yn cael ei brynu yn lle'r un sydd wedi torri gyferbyn â'r eglwys. Bydd y Clerc yn archebu hysbysfwrdd yr un fath â'r un ym maes parcio'r ysgol.
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Dim
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	Mae'r Clerc wedi derbyn un tendr ar gyfer torri gwair 2025 gan Rhys Williams am £3187.00. Cytunwyd i dderbyn y tendr.
7.2	Bethan Jones **-** Mae'r Clerc wedi derbyn ebost wrth Ms Bethan Jones yn cwyno am fagiau baw ci yn cael eu gadael ar y ddaear gyferbyn â'i chartref. Bydd y Clerc yn cysylltu â hi i ddatgan bod y cyngor yn prynu bin i'w roi o dan y dosbarthwr bagiau a gofyn a yw hi'n hapus gyda hyn?
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Ffens maes Chwarae - Dywedodd y Cadeirydd fod rhai o'r paneli ffensio yn y maes chwarae wedi torri. Cytunwyd i gael dyfynbrisiau ar gyfer amnewidiadau.
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu'r canlynol:
9.1	Anglesey Computer Solutions £198.00
9.2	Humphreys Waste £24.00 (Anf 17858)
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
	Dim
	Llofnod…….Cadeirydd 20.03.25